**GORCHYMYN DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1999 (DECHRAU) (CYMRU) 1999**

Derbyniodd Deddf Llywodraeth Leol 1999 Gydsyniad Brenhinol ar 27 Gorffennaf 1999 a daw i rym yn awtomatig union 12 mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol oni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu dechrau'r darpariaethau ynghynt. Mae'r gorchymyn yn dod â dyletswydd gyffredinol gwerth gorau i rym mewn perthynas â Chymru o 1 Ebrill 2000 ymlaen ac mae'n dechrau nifer o ddarpariaethau o 1 Hydref 1999 ymlaen. Drwy wneud y gorchymyn, bydd y Cynulliad yn darparu sicrwydd i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn caniatáu gweithredu cydlynol o'r syniad o werth gorau o ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Ystyriwyd drafft Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Dechrau) (Cymru) gan y Pwyllgor Busnes ar 20 Gorffennaf yn unol â Rheol Sefydlog 22.5. Ar ôl cymryd cyngor y Pwyllgor Busnes i ystyriaeth, pennodd y Dirprwy Lywydd na ddylid ystyried y gorchymyn drafft gan bwyllgor pwnc.

Caiff copi o'r gorchymyn drafft, sy'n cael ei wneud o dan adran 27(3) o Deddf Llywodraeth Leol 1999, ei gyflwyno gyda'r memorandwm hwn.

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1999 yn diddymu deddfwriaeth tendro cystadleuol gorfodol o 2 Ionawr 2000 ymlaen, ac yn lle hynny, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru (ac awdurdodau'r heddlu, tân a pharciau cenedlaethol) gyflawni gwerth gorau wrth gynnig gwasanaethau. Bydd rhaid i awdurdodau wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth iddynt gynnig eu gwasanaethau yn y ffyrdd mwyaf darbodus, effeithiol ac effeithlon posibl. Bydd yn ofynnol i awdurdodau ymgynghori â'u cymunedau lleol yngln â sut i gyflawni'r syniad o werth gorau ac adrodd yn flynyddol ar yr hyn a gyflawnwyd ganddynt yn erbyn amcanion clir.

Mae'r Ddeddf yn pennu y bydd y darpariaethau gwerth gorau yn dod i rym yn awtomatig 12 mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol h.y 27 Gorffennaf 2000 oni fydd y Cynulliad yn penderfynu dechrau'r darpariaethau'n gynharach. Prif effaith y gorchymyn drafft yw cyflwyno dyletswydd gyffredinol gwerth gorau yng Nghymru o **1 Ebrill 2000** ymlaen, sef y dyddiad cynharaf sy'n ymarferol.

Mae'r gorchymyn yn dod â nifer o ddarpariaethau i rym hefyd o **1 Hydref 1999** ymlaen i alluogi'r Cynulliad i ymgynghori'n eang ar ddeddfwriaeth isradd a chanllawiau drafft a fydd yn ffurfio'r fframwaith statudol ar gyfer gwerth gorau. Mae'n rhaid dechrau'r darpariaethau hyn o 1 Hydref 1999 ymlaen oherwydd mae angen i awdurdodau gwerth gorau fod yn ymwybodol o ffurf fframwaith statudol ymhell cyn y dyddiad gweithredu os ydynt am baratoi'n iawn ar gyfer y drefn newydd. **Gall methu â pharchu'r amserlen ei gwneud yn anodd i awdurdodau gydymffurfio â'r gofynion statudol a pheryglu gweithrediad llyfn y drefn gwerth gorau o 1 Ebrill 2000.**

Bydd goblygiadau ariannol i'r Cynulliad wrth weithredu'r Ddeddf, ac maent wedi'u trafod gyda'r Adrannau Cynllunio Cyllid a Chyllid Llywodraeth Leol. Eir i'r afael â hwy yn y Cylch Cynllunio Cyllideb sydd i ddod.

Bydd y Ddeddf yn rhoi per cyffredinol i'r Comisiwn Archwilio archwilio i ba raddau y mae awdurdod yn cydymffurfio gyda'r drefn gwerth gorau. At hynny, bydd gan y Cynulliad ber i gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal archwiliad lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Wrth i'r Ddeddf fynd drwy'r Senedd, nododd y Llywodraeth yn glir y byddai cost yr archwiliad yn cael ei rhannol gyllido gan grant i'r Comisiwn Archwilio (mater i'r Cynulliad fyddai hynny yng Nghymru) ac yn rhannol gan ffioedd a godir ar awdurdodau lleol. Awgrymwyd hefyd y dylai costau'r awdurdodau lleol gael eu trin fel baich newydd ac y byddai adnoddau ar gael i ysgwyddo'r costau hynny.

Nid yw union natur y drefn archwilio wedi'i phennu eto yng Nghymru a chaiff ei hystyried yn ddiweddarach. Ond os derbynnir y drefn a gynigir yn Lloegr yma yng Nghymru, amcangyfrifir mai cost yr archwiliadau gwerth gorau i'r Cynulliad fyddai tua £360,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (costau sefydlu a datblygu i'r Comisiwn Archwilio), £1.15 miliwn ar gyfer 2000-01 a £1.4 miliwn ar gyfer 2001-02. Nid yw'r costau ar gyfer blynyddoedd dilynol wedi'u mesur ond disgwylir iddynt fod yn llai na £1.4 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir mai'r costau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol fydd:

1999-2000 – Dim; 2000-01 -£1.65 miliwn; 2001-02 - £2.71 miliwn.

Ni chynhaliwyd unrhyw werthusiad rheoleiddio mewn perthynas â'r gorchymyn arfaethedig oherwydd mai gorchymyn dechreuol ydyw sy'n dod â deddfwriaeth sylfaenol sydd wedi'i chymeradwyo gan y Senedd i rym. Am yr un rheswm, ni fydd yn anghydnaws â'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb yng Nghymru, cynllun datblygu cynaliadawy y Cynulliad, cyfraith Gymunedol, Deddf Iawnderau Dynol 1998 nac unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol ar y Llywodraeth.

Mae'r memorandwm hwn wedi'i glirio gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

Cyswllt yn yr Adran Bolisi: Mike Pender, Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol 3, est 3094.

**Peter Law, Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol**

**GORCHYMYN DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1999 (DECHRAU) (CYMRU) 1999**

Derbyniodd Deddf Llywodraeth Leol 1999 Gydsyniad Brenhinol ar 27 Gorffennaf 1999 a daw i rym yn awtomatig union 12 mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol oni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu dechrau'r darpariaethau ynghynt. Mae'r gorchymyn yn dod â dyletswydd gyffredinol gwerth gorau i rym mewn perthynas â Chymru o 1 Ebrill 2000 ymlaen ac mae'n dechrau nifer o ddarpariaethau o 1 Hydref 1999 ymlaen. Drwy wneud y gorchymyn, bydd y Cynulliad yn darparu sicrwydd i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn caniatáu gweithredu cydlynol o'r syniad o werth gorau o ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Ystyriwyd drafft Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Dechrau) (Cymru) gan y Pwyllgor Busnes ar 20 Gorffennaf yn unol â Rheol Sefydlog 22.5. Ar ôl cymryd cyngor y Pwyllgor Busnes i ystyriaeth, pennodd y Dirprwy Lywydd na ddylid ystyried y gorchymyn drafft gan bwyllgor pwnc.

Caiff copi o'r gorchymyn drafft, sy'n cael ei wneud o dan adran 27(3) o Deddf Llywodraeth Leol 1999, ei gyflwyno gyda'r memorandwm hwn.

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1999 yn diddymu deddfwriaeth tendro cystadleuol gorfodol o 2 Ionawr 2000 ymlaen, ac yn lle hynny, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru (ac awdurdodau'r heddlu, tân a pharciau cenedlaethol) gyflawni gwerth gorau wrth gynnig gwasanaethau. Bydd rhaid i awdurdodau wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth iddynt gynnig eu gwasanaethau yn y ffyrdd mwyaf darbodus, effeithiol ac effeithlon posibl. Bydd yn ofynnol i awdurdodau ymgynghori â'u cymunedau lleol yngln â sut i gyflawni'r syniad o werth gorau ac adrodd yn flynyddol ar yr hyn a gyflawnwyd ganddynt yn erbyn amcanion clir.

Mae'r Ddeddf yn pennu y bydd y darpariaethau gwerth gorau yn dod i rym yn awtomatig 12 mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol h.y 27 Gorffennaf 2000 oni fydd y Cynulliad yn penderfynu dechrau'r darpariaethau'n gynharach. Prif effaith y gorchymyn drafft yw cyflwyno dyletswydd gyffredinol gwerth gorau yng Nghymru o **1 Ebrill 2000** ymlaen, sef y dyddiad cynharaf sy'n ymarferol.

Mae'r gorchymyn yn dod â nifer o ddarpariaethau i rym hefyd o **1 Hydref 1999** ymlaen i alluogi'r Cynulliad i ymgynghori'n eang ar ddeddfwriaeth isradd a chanllawiau drafft a fydd yn ffurfio'r fframwaith statudol ar gyfer gwerth gorau. Mae'n rhaid dechrau'r darpariaethau hyn o 1 Hydref 1999 ymlaen oherwydd mae angen i awdurdodau gwerth gorau fod yn ymwybodol o ffurf fframwaith statudol ymhell cyn y dyddiad gweithredu os ydynt am baratoi'n iawn ar gyfer y drefn newydd. **Gall methu â pharchu'r amserlen ei gwneud yn anodd i awdurdodau gydymffurfio â'r gofynion statudol a pheryglu gweithrediad llyfn y drefn gwerth gorau o 1 Ebrill 2000.**

Bydd goblygiadau ariannol i'r Cynulliad wrth weithredu'r Ddeddf, ac maent wedi'u trafod gyda'r Adrannau Cynllunio Cyllid a Chyllid Llywodraeth Leol. Eir i'r afael â hwy yn y Cylch Cynllunio Cyllideb sydd i ddod.

Bydd y Ddeddf yn rhoi per cyffredinol i'r Comisiwn Archwilio archwilio i ba raddau y mae awdurdod yn cydymffurfio gyda'r drefn gwerth gorau. At hynny, bydd gan y Cynulliad ber i gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal archwiliad lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Wrth i'r Ddeddf fynd drwy'r Senedd, nododd y Llywodraeth yn glir y byddai cost yr archwiliad yn cael ei rhannol gyllido gan grant i'r Comisiwn Archwilio (mater i'r Cynulliad fyddai hynny yng Nghymru) ac yn rhannol gan ffioedd a godir ar awdurdodau lleol. Awgrymwyd hefyd y dylai costau'r awdurdodau lleol gael eu trin fel baich newydd ac y byddai adnoddau ar gael i ysgwyddo'r costau hynny.

Nid yw union natur y drefn archwilio wedi'i phennu eto yng Nghymru a chaiff ei hystyried yn ddiweddarach. Ond os derbynnir y drefn a gynigir yn Lloegr yma yng Nghymru, amcangyfrifir mai cost yr archwiliadau gwerth gorau i'r Cynulliad fyddai tua £360,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (costau sefydlu a datblygu i'r Comisiwn Archwilio), £1.15 miliwn ar gyfer 2000-01 a £1.4 miliwn ar gyfer 2001-02. Nid yw'r costau ar gyfer blynyddoedd dilynol wedi'u mesur ond disgwylir iddynt fod yn llai na £1.4 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir mai'r costau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol fydd:

1999-2000 – Dim; 2000-01 -£1.65 miliwn; 2001-02 - £2.71 miliwn.

Ni chynhaliwyd unrhyw werthusiad rheoleiddio mewn perthynas â'r gorchymyn arfaethedig oherwydd mai gorchymyn dechreuol ydyw sy'n dod â deddfwriaeth sylfaenol sydd wedi'i chymeradwyo gan y Senedd i rym. Am yr un rheswm, ni fydd yn anghydnaws â'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb yng Nghymru, cynllun datblygu cynaliadawy y Cynulliad, cyfraith Gymunedol, Deddf Iawnderau Dynol 1998 nac unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol ar y Llywodraeth.

Mae'r memorandwm hwn wedi'i glirio gan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

Cyswllt yn yr Adran Bolisi: Mike Pender, Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol 3, est 3094.

**Peter Law, Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol**